

# Yr afiechyd cyffredin

“... safodd Iesu a chyhoeddi'n uchel: 'Pwy bynnag sy'n sychedig, deued ataf i ac yfed.'” (adn. 37)

## Beth am ddarllen Ioan 7:25–43 ac yna myfyrio

Yr ydym am ddal fod yna hiraeth yng nghalon pob dyn a gwraig am y nefoedd. Ychydig amser yn ôl mewn erthygl yn *Bob Dydd gyda'r Iesu* nodais fod y gair ‘hiraeth’ yn deillio o ddau air Groeg – *nostos* sy'n golygu ‘dychwelyd adref’, ac *algos* sy'n golygu ‘poen’. O'r gair hwn y mae'r gair Saesneg *nostalgia* yn dod. Bellach, mae'r hiraeth am gartref yn glefyd na ellir ei wella ond drwy gael bod gartref. Clywais un seiciatrydd Cristnogol yn dweud unwaith, “Mae'r hiraeth am gartref yn glefyd cyffredin i bob un ac o hwn y mae llawer o broblemau eraill yn deillio.” Beth, tybed, a olygai? Tybiaf mai dyma ei ystyr. Gan fod Duw wedi adeiladu hiraeth amdano ef i mewn i'n henaid, mae yna rywbeth ynom, felly, na all y byd ei fodloni. Ni wnaiff arian ei fodloni. Ni wnaiff enwogrydd ei fodloni. Ni wnaiff pleser ei fodloni. Ni wnaiff hyd yn oed mam, tad, gŵr neu wraig, neu'r ffrind agosaf ei fodloni. Mae'r hyn yr ydym ni yn hiraethu amdano yn ein henaid y tu hwnt i unrhyw berthynas ddaearol. Mae gwadu neu anwybyddu'r hiraeth y mae Duw wedi ei roi yn ein henaid amdano ef yn sicr o farwhau rhan o'n henaid, y rhan honno sydd yn disgwyl amdano. Mae'r marwhau yma yn cynhyrchu lefel o anesmwythyd yn ein personoliaeth. Gallwn wneud dim ond ceisio ei wadu neu geisio ei fodloni mewn ffyrdd sydd yn gwadu Duw.

Mae gwrthod cydnabod ein hiraeth ysbrydol yn peryglu ein henaid. Ni ddaw unrhyw ymwybyddiaeth o ddiogelwch, ni ddaw unrhyw ymwybyddiaeth o gyflawnder i'n henaid os nad yw Duw yno. Heb ddiogelwch neu heb gyflawnder, yr ydym yn agored i bob math o anawsterau.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 42:1–2; 73:18–25; Eseia 26:9

## Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. I ba beth y cymharodd y salmydd ei hun?
2. Beth oedd ei gasgliad?

## Gweddi

Arglwydd Iesu, does dim yn medru bodloni y rhan hynny ohonof sydd yn hiraethu amdanat ti. Tyrd, Arglwydd Iesu, ac ateb fy angen. Helpa fi i brofi fy sicrwydd a'm pwrpas ynot ti. Er mwyn dy enw. Amen.